

N2019 Meithrin 2019
PP/adn2
2 Ionawr 2019
01978 298991
Admissions@wrexham.gov.uk

**I: Rhieni'n Ymgeisio am Le
Meithrin i'w Plant mewn Ysgolion
Cynradd / Meithrin**

Your Ref/Eich Cyf
Our Ref/Ein Cyf
Date/Dyddiad
Ask for/Gofynner am
Contact No/Rhif Cyswllt
E-mail/E-bost

Annwyl Riant/Ofalwr,

Derbyniadau i Ddosbarthiadau/Ysgolion meithrin ar gyfer mis Medi 2019

Mae'r Awdurdod Lleol (All) yn sicrhau y darperir addysg feithrin mewn ystod o ysgolion. Gall hyn fod mewn ysgol cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg neu ysgol a gynorthwyir neu a reolir (gweler tudalen 5 y 'Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam'). Cynigir darpariaeth feithrin am bum sesiwn 2½ awr yr wythnos yn ystod blwyddyn ysgol 2019/2020. Bydd y pennaeth yn rhoi gwybod i chi pa sesiynau y caiff eich plentyn eu mynychu cyn gynted â phosibl ar ôl i chi gael gwybod bod lle ar gael i'ch plentyn mewn ysgol feithrin.

O 2 Ionawr 2019 byddwch yn gallu cyflwyno eich cais a gweld Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg 2019/20 drwy gofrestru ar-lein yn www.wrecsam.gov.uk. Bydd angen cyfeiriad e-bost arnoch i gyflwyno'ch cais ar-lein o'ch cyfrifiadur cartref, tabled neu ffôn symudol neu drwy ddangos cerdyn llyfrgell gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfleusterau yn Cyswllt Wrecsam a Llyfrgell Wrecsam. Gellir cyflwyno ceisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a bydd y ceisiadau hynny'n cael eu hanfon yn uniongyrchol i'r ALI. Bydd modd i chi ailedrych ar eich cais a'i ddiwygio hyd at y **dyddiad cau** a gyhoeddwyd, **sef 22 Chwefror 2019**.

Pe bai'n well gennych gyflwyno ffurflen gais bapur, gallwch lwytho'r rhain i lawr a'u hargraffu o wefan Wrecsam neu gallwch eu casglu o Cyswllt Wrecsam, 16 Stryt yr Arglwydd, Wrecsam LL11 1LG. Dylid dychwelyd ceisiadau papur yn uniongyrchol i Wasanaeth Derbyniadau'r Awdurdod Lleol, Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR.

Bydd yr Awdurdod Derbyn yn derbyn disgyblion hyd at nifer derbyn yr ysgol (dangosir y nifer hwn ar y rhestr ysgolion yn y Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam'). Os byddwn yn derbyn mwy o geisiadau nag sydd o leoedd ar gael, bydd meini prawf gordanysgrifio'r ALI yn cael eu defnyddio i benderfynu ar y dyraniadau. Byddwn yn delio â **cheisiadau hwyr** ar ôl pob un o'r rhai a gyflwynwyd erbyn **22 Chwefror 2019**, mae'n bwysig iawn eich bod yn cadw at y dyddiad cau a gyfeiriwyd ato gan fod posibilrwydd y bydd llai o siawns i'r ysgol o'ch dewis gael ei dyrannu os yw eich cais yn hwyr.

Os ydych wedi nodi eich bod yn ffafrio ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir, bydd yr ALI yn ystyried eich cais. Fel arall, os ydych wedi dewis ysgol a gynorthwyir gan yr Eglwys Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru, corff llywodraethu'r ysgol honno fydd yn ystyried eich cais, [rydym yn eich cynghori i gysylltu'n uniongyrchol â'r ysgolion hyn i gael rhagor o wybodaeth cyn cyflwyno eich cais i'r ALI.](#)

Atgoffir rhieni os yw eu plentyn ar hyn o bryd mewn dosbarth hawl i addysg gynnar mewn ysgol, nad oes sicrwydd y bydd lle iddynt mewn dosbarth meithrin yn yr ysgol honno gan fod yn rhaid gwneud cais ffurfiol am le meithrin ar wahân.

Bydd yn cymryd ychydig o amser i gwblhau'r broses ddyrannu, ond byddwch yn cael gwybod erbyn **10 Mai 2019** a dyrannwyd lle i'ch plentyn yn yr ysgol o'ch dewis. Er y bydd yr awdurdod derbyn yn ystyried dewisiadau rhieni wrth ddyrannu lleoedd, hoffwn eich atgoffa, os na fydd lle'n cael ei ddyrannu i chi yn y dosbarth meithrin o'ch dewis, nid oes gennych hawl ffurfiol i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwirio'r cyfeiriad a roddir ar eich cais yn erbyn y cofnodion sydd gennym ar gyfer eich plentyn, ac efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth oddi wrthyh os ydynt yn wahanol. Efallai y byddwn hefyd yn gwirio cofnodion treth y cyngor. Os nad ydych wedi darparu eich cyfeirnod treth y cyngor ar eich cais efallai y byddwn yn ysgrifennu atoch i ofyn i chi ddarparu prawf ychwanegol o'ch cyfeiriad.

At ddibenion dyrannu, bydd unrhyw gynnig o le mewn ysgol yn seiliedig ar ble fydd eich plentyn yn byw ar ddiwedd y cyfnod dyrannu ac mae'n amodol bod eich plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw, oni bai eich bod wedi rhoi gwybod i ni a'n bod ninnau wedi derbyn eu bod wedi symud yn y cyfamser.

O bryd i'w gilydd, tynnir fy sylw at faterion yn ymwneud â 'chyfeiriad cartref' plentyn ar ôl i leoedd mewn ysgolion gael eu dyrannu. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i mi gynnal ymchwiliadau pellach yn ymwneud â 'chyfeiriad cartref' y plentyn, ac wrth wneud hynny, gofynnaf i rieni/gofalwyr gyflenwi dogfennau swyddogol fel tystiolaeth i gadarnhau 'cyfeiriad cartref' eu plentyn. Hoffwn hysbysu rhieni/gofalwyr y gallai lle plentyn mewn ysgol gael ei dynnu'n ôl yn gyfreithiol os darganfyddir yn ddiweddarach fod y wybodaeth a roddwyd ar eu cais yn dwyllodrus neu'n gamarweiniol. Un canlyniad posibl i hyn yw bod posibilrwydd na fydd lle yn dal i fod ar gael i'r plentyn yn yr ail ysgol agosaf. **Os na all dau riant gytuno ar ba ysgol/ysgolion sydd orau ganddynt, rhaid iddynt ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol, ac os bydd angen gorchymyn llys priodol, cyn cyflwyno cais unigol i'r ALI.**

Os oes anabledd ar eich plentyn a allai effeithio ar ei gynnydd/chynnydd a'i gyfranogiad ym mywyd yr ysgol, nodwch hyn wrth wneud eich cais a darparwch unrhyw dystiolaeth ategol, er enghraifft, llythyr gan weithiwr iechedd proffesiynol cofrestredig fel Meddyg neu Weithiwr Cymdeithasol.

Os oes gan eich plentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, bydd yr ALI yn gwneud ei orau i neilltuo eich dewis o ysgol feithrin / cynradd, ond mae'n rhaid iddo sicrhau y gall yr ysgol fodloni anghenion eich plentyn yn llawn. Ar ôl derbyn eich cais, bydd un o Swyddogion yr ALI yn ysgrifennu atoch ac efallai y byddwch eisiau trefnu cyfarfod i drafod addysg gynradd eich plentyn.

Fe'ch atgoffir nad ydym yn darparu cludiant i blant oed ysgol feithrin ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. Amlinellir manylion am y Polisi Cludiant yng 'Nghanllaw Rhieni' y Fwrdeistref Sirol i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam'. **A wnewch chi hefyd nodi, nad yw'r ffaith fod eich plentyn yn cael ei dderbyn i ddosbarth meithrin mewn ysgol benodol yn sicrhau lle yn y dyfodol ar gyfer eich plentyn yn y dosbarth derbyn yn yr ysgol honno gan fod rhaid gwneud cais ffurfiol ar wahân.**

Os bydd eich cyfeiriad cartref, neu amgylchiadau eraill yn newid cyn **29 Mawrth 2019**, neu os oes angen unrhyw gyngor pellach, ffoniwch y Swyddfa Dderbyniadau ar 01978 298991.

Yn ddiffuant



Ian Roberts
Pennaeth Addysg

ADRAN 1 – MANYLION Y PLENTYN

CYFENW/ENW TEULU'R PLENTYN:

ENW(AU) CYNTAF Y PLENTYN:

RHYW Y PLENTYN:
(ticiwch y blwch priodol)

Gwryw:

Benyw:

DYDDIAD GENI:

--	--	--	--	--	--

CYFEIRIAD
CARTREF:
(Cyfeiriad
parhaol y
plentyn)

COD POST:

Byddwch cystal â rhoi gwybod i'r Tîm Derbyn os bydd cyfeiriad eich plentyn yn newid yn ystod y cyfnod neilltuo. Os bydd lle'n cael ei gynnig ar sail yr wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon, gwybodaeth a sylweddolir, yn ddiweddarach, sy'n dwyllodrus neu'n fwriadol gamarweiniol, yna fe allai'r lle gael ei wrthod. Fe allai'r Awdurdod ofyn am ddogfennau swyddogol i brofi ble mae'r plentyn yn byw.

ENW(AU) Y PERSON/BOBL SYDD Â CHYFRIFOLDEB RHIANT (gweler tudalen 9 'Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wreccsam')

Mr/Mrs/Miss/Ms	Llythrennau blaen:	Cyfenw:	Rhif ffôn y Cartref/Rhif yn ystod y dydd:
Mr/Mrs/Miss/Ms	Llythrennau blaen:	Cyfenw:	Rhif ffôn y Cartref/Rhif yn ystod y dydd:
CYFEIRIAD(AU) (os yw'n wahanol i gyfeiriad y disgybl) a rhif ffôn y cartref (os yw ar gael):			

ADRAN 2 – MANYLION MEITHRINFA DDEWISOL

Wedi ichi bendertynu ar y math o ysgol sydd orau gennych, rhestrwch eich dewis isod yn nhrefn eich dewis. (Gallwch edrych ar 'Ganllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wreccsam' i gael ragor o wybodaeth am ysgolion cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a'r rhain hynny a gynorthwyir gan eglwys). Os ydych chi'n dweud bod yn well gennych chi ysgol a gynorthwyir gan eglwys, neu ysgol y tu allan i Fwrdeistref Sirol Wreccsam, **RHAID ichi gysylltu hefyd â'r awdurdod derbyn priodol ar gyfer yr ysgol honno**, oherwydd y bydd angen gwybodaeth ychwanegol, o bosibl, i ategu eich cais.

Dewis 1 ^{af}	
2 ^{il} Ddewis	
3 ^{ydd} Dewis	
Rhowch y rhesymau dros eich dewis (ysgrifennwch ragor ar ddarn arall o bapur os oes raid)	

Nid yw enwi dewis ysgol yn sicrhau y caiff eich plentyn ei dderbyn i'ch dewis ysgol. Os nad ydych yn enwi dewis ysgol, neu eich bod yn cyflwyno'r ffurflen hon yn hwyr, bydd hynny'n golygu y bydd eich plentyn yn llai tebygol o allu mynd i'ch dewis ysgol.

NODER: Os yw eich plentyn eisoes yn mynychu dosbarth MEITHRIN mewn ysgol, nid oes sicrwydd y caiff le yn nosbarth DERBYN yr ysgol honno. NI DDARPERIR CLUDIANT ar gyfer plant ysgol FEITHRIN, ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig

ADRAN 3 – GWYBODAETH YCHWANEGOL

LLEOLIAD ADDYSG GYNNAR BRESENNOL (os yw'n berthnasol) _____

A yw'ch plentyn wedi cael Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ac a yw ef/hi'n cael ei fonitro gan Wasanaeth Cynhwysiad Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam?	Ydy	Nac Ydy
A yw eich plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol (mewn Gofal Cyhoeddus)? Dywedwch ba Awdurdod Lleol:	Ydy	Nac Ydy

Os NAD yw'r plentyn yn byw ym Mwrdeistref Sirol Wreccsam ar hyn o bryd, ticiwch y blwch

Testun brodyr a chwiorydd: Enwau brodyr a chwiorydd (ystyrir yn berthnasol p'un a yw'n llawn, hanner, llys neu faeth os ydyn nhw'n byw gyda'i gilydd mewn un tŷ) a aned rhwng 1.9.2008 – 31.8.2015, a fydd yn mynychu a fydd yn mynychu eu dewis ysgol ym mis Medi 2019.

Enw'r Brawd neu Chwaer	Dyddiad Geni	Grŵp Blwyddyn Presennol

Gallwch roi unrhyw resymau eraill I ni I gefnogi eich cais. Os ydych wedi dewis Ysgol am resymau cymdeithasol neu feddygol dylech roi mwy o fanylion isod. Efallai byddwn yn cysylltu a chi I drafod hyn ymhellach.

Ysgrifennwch ragor ar ddarn arall o bapur os oes rhaid...

Os bydd nifer y ceisiadau i'ch dewis ysgol yn uwch na'r nifer o leoedd sydd ar gael, yna bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio i raddio blaenoriaeth eich plentyn yn ôl y meini prawf sydd gan yr ysgol berthnasol ynghylch gormod o geisiadau a phrinder lleoedd. Ar gyfer ysgolion cymunedol gweler tudalen 10 'Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wreccsam'.

DATGANIAD Y RHIANT

Rwyf yn datgan bod yr holl wybodaeth a roddais yn wir. Rwyf yn sylweddoli y gellid gwrthod unrhyw le mewn ysgol a neilltuir ar sail gwybodaeth dwyllodrus neu wybodaeth sy'n fwriadol gamarweiniol. Rwy'n ymwybodol y gall y wybodaeth a ofynnwyd amdani ar y ffurflen hon am ddisgyblion, eu rhieni neu warcheidwaid cyfreithiol, yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data presennol, ei rhannu gydag adrannau eraill.

Llofnod y Rhiant Dyddiad

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn trin data personol, darllenwch ein Hysbysiadau Preifatrwydd ar ein gwefan www.wreccsam.gov.uk.